WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o 'Hybu ffyrdd o fyw gweithgar er mwyn gwella lles meddyliol a chorfforol' – **Cyngor Sir Penfro**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1238A2019-20

Mae'r ddogfen hon wedi ei pharatoi ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Penfro fel rhan o waith a gyflawnwyd / i'w gyflawni yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn rhinwedd eu swyddi unigol, neu o ran unrhyw drydydd parti.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae cod adran 45 yn cyflwyno'r arfer o ran ymdrin â cheisiadau sy'n ddisgwyliedig gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru at swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Jeremy Evans, Alison Lewis a Richard Hayward dan arweiniad Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu'r cam o ran hybu ffyrdd o fyw gweithgar, ond mae cyfleoedd i ymwreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Rhan un: Canfyddiadau'r archwiliad 6

Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu'r cam o ran hybu ffyrdd o fyw gweithgar, ond mae cyfleoedd i ymwreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach

Mae'r Cyngor wedi ystyried y buddion hirdymor wrth osod y cam hwn ac yn cydnabod yr angen i ddatblygu mesurau canlyniad 6

Mae 'atal' yn rhan greiddiol o'r strategaeth, gyda'r nod o geisio datblygu a darparu gwasanaethau sy'n gwella iechyd a lles corfforol, cymdeithasol ac emosiynol dinasyddion 7

Mae'r Cyngor wedi ystyried sut mae ei gamau i gyflawni'r cam hwn yn cyd-fynd ag amcanion llesiant eraill y Cyngor ac amcanion cyrff cyhoeddus eraill, ond mae angen mynd ati mewn modd mwy systematig 8

Mae'r Cyngor yn cydweithio ag amrediad o randdeiliaid i gyflenwi'r cam ac yn edrych ar gyfleoedd partneriaeth newydd 9

Mae'r Cyngor wedi cynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith o gynllunio'r strategaeth, ond gallai ehangu ei weithgareddau ymgysylltu er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl gynhwysol 10

Rhan dau: Ymateb Cyngor Sir Penfro 12

Atodiadau

Atodiad 1 – Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y gwnaethpwyd yr archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) ddyletswydd statudol i archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a. bennu eu hamcanion llesiant;

b. cymryd camau i'w bodloni.

Diffiniad y Ddeddf o'r egwyddor datblygu cynaliadwy yw gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'

2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob etholiad y Cynulliad. Rhaid cyflwyno'r adroddiad cyntaf o'r fath erbyn 2020, cyn etholiad y Cynulliad yn 2021.

3 Yn ystod 2018-19, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd ag archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf, i lywio ei adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol.

4 Ym Mai 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad 'Myfyrio ar Flwyddyn Un – Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)'. Daeth i'r casgliad fod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf ac yn cymryd camau i newid eu ffordd o weithio.

5 Wrth ddatblygu ein dull o gynnal yr archwiliadau yn ystod 2018-19, gwnaethom ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys trwy ein gwaith peilot yn ystod 2017-18. Gwnaethom weithio'n agos hefyd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

6 Fel rhan o'r gwaith rhagarweiniol yn y flwyddyn gyntaf, ystyriwyd sut y bu i gyrff cyhoeddus osod eu hamcanion llesiant, felly prif ganolbwynt y gwaith hwn yw'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

7 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaed gennym rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Chwefror 2019.

8 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau o'r archwiliad 'Hybu ffyrdd o fyw gweithgar er mwyn gwella lles meddyliol a chorfforol', sef cam y mae'r Cyngor yn ei gymryd i gyflawni ei amcanion llesiant.

9 Mae'n nodi ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau hefyd.

## Yr hyn a archwiliwyd

10 Archwiliwyd i ba raddau mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth 'Hybu ffyrdd o fyw gweithgar er mwyn gwella lles meddyliol a chorfforol'.

11 Er mwyn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd canlynol o weithio':

### Arddangosyn 1: y 'pum ffordd o weithio'

Mae'r tabl isod yn gosod y 'pum ffordd o weithio' fel y'u diffinnir yn nogfen 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion[1]' gan Lywodraeth Cymru.

| Y pum ffordd o weithio |
|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar ei amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Cydweithredu ag unrhyw unigolyn arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) a allai helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| **Cyfranogiad**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

12 Canfu ein harchwiliad y canlynol: **Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu'r cam o ran hybu ffyrdd o fyw gweithgar, ond mae cyfleoedd i ymwreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach**.

[1] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion, Llywodraeth Cymru (2015)

# Adroddiad manwl

## Rhan un: Canfyddiadau'r archwiliad

## Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu'r cam o ran hybu ffyrdd o fyw gweithgar, ond mae cyfleoedd i ymwreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach

### Mae'r Cyngor wedi ystyried y buddion hirdymor wrth osod y cam hwn ac yn cydnabod yr angen i ddatblygu mesurau canlyniad

#### Yr hyn yr edrychom amdano

13 Edrychom am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr o'r anghenion presennol a hirdymor; a'r heriau a'r cyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio amserlen briodol;
- adnoddau a ddyrannwyd i sicrhau manteision hirdymor;
- monitro ac adolygu priodol.

14 Hefyd, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr ‘hirdymor’ yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Beth a ganfuwyd

15 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- mae'r strategaeth newydd wedi'i chynllunio dros y tymor hwy sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2018 a 2028, ac mae cyllid dangosol ar waith;
- mae'r Cyngor wedi gosod nod uchelgeisiol o gael y boblogaeth fwyaf gweithgar yng Nghymru;
- mae strategaeth y Cyngor yn canolbwyntio ar wneud newidiadau i lefelau gweithgarwch unigolion a chynnal hyn dros yr hirdymor er mwyn gwneud newidiadau i'w hiechyd yn y dyfodol;

[2] Gweler Atodiad 1

- bydd y dull gweithredu newydd yn canolbwyntio ar annog pobl nad ydynt yn ddefnyddwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn hytrach na dim ond annog y rhai hynny sydd eisoes yn weithgar i wneud mwy.

16 Nodwyd y cyfleoedd canlynol ar gyfer gwella:

- mae angen i'r Cyngor gasglu data er mwyn gallu:
  – deall y problemau mewn digon o fanylder;
  – pennu'r hyn a ystyrir yn llwyddiant (ar sail canlyniadau);
  – gwybod sut bydd yn mesur canlyniadau.
- mae angen i'r Cyngor edrych ar sut mae'n mesur y buddion sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau a ddarperir ganddo, gan ystyried, er enghraifft, mesurau perfformio o ran gwerth cymdeithasol.

## Mae 'atal' yn rhan greiddiol o'r strategaeth, gyda'r nod o geisio datblygu a darparu gwasanaethau sy'n gwella iechyd a lles corfforol, cymdeithasol ac emosiynol dinasyddion

### Yr hyn yr edrychom amdano

17 Edrychom am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr o natur a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu waethygu;
- adnoddau a ddyrannwyd i sicrhau y cyflawnir buddion ataliol;
- monitro ac adolygu pa mor effeithiol mae'r cam yn atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

18 Hefyd, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘atal’ yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[3]

### Beth a ganfuwyd

19 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn gwella ei gynnig hamdden er mwyn annog cyfranogiad ehangach i drechu gordewdra a helpu i atal problemau iechyd posibl rhag digwydd;
- mae'n amlwg bod y Cyngor yn credu bod gweithgarwch corfforol yn chwarae rhan mewn helpu i wella ac atal problemau iechyd meddyliol a chorfforol rhag digwydd;

[3] Gweler Atodiad 1

- mae'r Cyngor yn mynd ati i hyrwyddo defnydd drwy dargedu grwpiau penodol, e.e. sesiynau pêl-droed cerdded yn Hwlffordd i grwpiau â heriau iechyd meddwl ac aelodaeth am ddim i ofalwyr di-dâl;
- mae'r Cyngor wedi llwyddo i ddenu llawer drwy gynllun y meddygon teulu i atgyfeirio pobl i wneud ymarfer corff. Mae nifer yr atgyfeiriadau wedi cynyddu bob blwyddyn yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Yn ystod 2017-18, cafodd 1,974 o bobl eu hatgyfeirio, sef cynnydd o 10.4% ar lefelau 2016-17.

20 Nodwyd y cyfleoedd canlynol ar gyfer gwella:

- dylid ystyried sut gallai gwella'r data a'r ddealltwriaeth o iechyd a lles corfforol, cymdeithasol ac emosiynol dinasyddion wneud y canlynol:
  - gwella gwybodaeth o'r achosion craidd;
  - darparu dealltwriaeth well o ganlyniadau ymyriadau gwahanol er mwyn helpu'r Cyngor i adeiladu ar arferion llwyddiannus;
  - galluogi dulliau sydd wedi'u targedu a'u teilwra'n well i fynd i'r afael â'r problemau, gan gynnwys y potensial i fuddsoddi ymhellach mewn gweithgareddau ataliol.

## Mae'r Cyngor wedi ystyried sut bydd ei gamau i gyflawni'r cam hwn yn integreiddio gydag amcanion llesiant eraill y Cyngor ac amcanion cyrff cyhoeddus eraill, ond mae angen mynd ati mewn modd mwy systematig

### Yr hyn yr edrychom amdano

21 Edrychom am dystiolaeth o ystyried y canlynol:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

22 Hefyd, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘integreiddio’ yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[4]

### Beth a ganfuwyd

23 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- mae'r strategaeth yn gysylltiedig â mwy nag un o amcanion llesiant y Cyngor;

[4] Gweler Atodiad 1

- adroddodd swyddogion fod pwysigrwydd gwasanaethau hamdden effeithiol wedi'i gydnabod ledled y Cyngor, a bod yr hyn a ystyriwyd yn flaenorol fel gwasanaeth 'braf ei gael' yn cael ei gydnabod bellach am y budd ehangach y gall ei gyflwyno;
- mae amcanion wedi'u hintegreiddio ar draws gwahanol adrannau, er enghraifft, datblygiad chwaraeon mewn addysg a gwasanaethau hamdden, a'r ddwy adran yn gweithio tuag at y nod o gael mwy o bobl yn weithgar, yn amlach;
- mae'r strategaeth hamdden yn nodi cynlluniau a strategaethau sefydliadau perthnasol eraill, e.e. Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru.

24 Nodwyd y cyfleoedd canlynol ar gyfer gwella:

- mae angen i'r Cyngor ystyried sut i ymwreiddio dull gweithredu integredig ymhellach ar draws gwasanaethau er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn meddwl am sut y gall eu gwasanaeth gyflawni cymaint â phosibl o fuddion a nodi a rheoli unrhyw wrthdaro posibl;
- er bod y Strategaeth Hamdden yn nodi cyd-destun y polisi cenedlaethol a'r strategaethau allweddol gan bartneriaid eraill, nid yw'n dangos yn glir sut mae'r rhain wedi cyfrannu at ddatblygiad y strategaeth.

## Mae'r Cyngor yn cydweithio ag amrediad o bartneriaid i gyflenwi'r cam ac yn edrych ar gyfleoedd partneriaeth newydd

### Yr hyn yr edrychom amdano

25 Edrychom am dystiolaeth fod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu i helpu corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam;
- yn monitro ac yn adolygu a yw'r cydweithio yn ei helpu ef neu ei randdeiliaid i gyflawni eu hamcanion llesiant.

26 Hefyd, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘cydweithio’ yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[5]

### Beth a ganfuwyd

27 Nodwyd y cryfderau canlynol:

[5] Gweler Atodiad 1

- mae'r Cyngor yn mynd ati i ymgysylltu â chyrff iechyd i archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio canolfannau hamdden fel safleoedd posibl ar gyfer canolfannau meddygol;
- mae'r cydweithio mewnol yn aeddfed ac yn gweithio'n arbennig o dda gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, er enghraifft, bod y caeau 3G a ddarparwyd fel rhan o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael eu defnyddio gan glybiau a grwpiau cymunedol;
- cydweithio parhaus â chlybiau chwaraeon cymunedol a'r trydydd sector, e.e. Swim Narberth a Chysylltwyr Cymunedol yng Nghymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro sy'n datblygu gweithgareddau cymdeithasol ac yn cyfeirio/cysylltu cymunedau â chynnig hamdden y Cyngor;
- partneriaethau allweddol gyda'r maes iechyd a'r cynllun atgyfeirio llwyddiannus gyda meddygon teulu.

28 Nodwyd y cyfleoedd canlynol ar gyfer gwella:

- mae'r Cyngor yn sylweddoli bod cyfle posibl i ddatblygu strategaeth hamdden ehangach yn Sir Benfro a fydd yn mynd y tu hwnt i gwmpas ei strategaeth hamdden ei hun;
- dylid ymgysylltu ymhellach â phartneriaid allweddol eraill, gan gynnwys cynghorau tref a chymuned ac awdurdodau cyfagos, er mwyn nodi cyfleoedd iddynt gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni amcanion y strategaeth hamdden;
- sefydlu dulliau gweithredu a fydd yn helpu i fonitro ac adolygu a yw cydweithio â phartneriaid ar weithgareddau hamdden yn effeithiol.

## Mae'r Cyngor wedi cynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith o gynllunio'r strategaeth, ond gallai ehangu ei weithgareddau ymgysylltu er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl gynhwysol

### Yr hyn yr edrychom amdano

29 Edrychom am dystiolaeth fod y Cyngor wedi:

- nodi pwy y mae angen iddo ei gynnwys yn y broses o ddylunio a chyflawni'r cam;
- cynnwys y rhanddeiliaid allweddol yn effeithiol yn y broses o ddylunio a chyflawni'r cam;
- defnyddio canlyniadau'r cyfranogiad i lywio'r ffordd y caiff y cam hwn ei ddatblygu a'i gyflawni;
- ceisio dysgu gwersi a gwella ei ddull o gyfranogi.

30 Hefyd, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘cyfranogiad’ yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[6]

## Beth a ganfuwyd

31 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- roedd adrannau mewnol y Cyngor yn ymwneud yn helaeth â'r ymgynghori ar y strategaeth hamdden newydd;
- roedd y strategaeth yn cael ei llywio gan lawer o ymgysylltu ag amrediad o sefydliadau, gan gynnwys y canlynol: cyrff trydydd sector, Iechyd Cyhoeddus Cymru, 40 o Glybiau Chwaraeon Lleol a mwy na 400 o ddefnyddwyr canolfannau hamdden;
- defnydd sefydledig o offer adborth cwsmeriaid - gan ddefnyddio data’r sgôr hyrwyddo net, enillodd gwasanaethau hamdden Sir Benfro'r wobr 'Profiad Gorau i Gwsmeriaid' yng nghategori awdurdod lleol Customer Engagement Agency 2018;
- trwy ymateb i adborth cwsmeriaid, mae'r Cyngor yn darparu cyfleusterau gwell yng Nghanolfan Hamdden Hwlffordd.

32 Nodwyd y cyfleoedd canlynol ar gyfer gwella:

- dylai'r Cyngor ystyried cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar lefel strategaeth er mwyn sicrhau ei hun ei fod yn gynhwysol ac yn ystyried gofynion pobl â nodweddion gwarchodedig;
- dylai'r Cyngor edrych ar ffyrdd o ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r rhai hynny nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau hamdden ar hyn o bryd;
- dylid sefydlu cynllun ar gyfer sut mae'r Cyngor yn mynd i gynnwys pobl eraill ac ymgysylltu â nhw'n barhaus wrth i'r strategaeth gael ei chyflawni;
- mae'r Cyngor yn gobeithio defnyddio gwybodaeth o'r 'hwb data' i fapio data aelodau er mwyn llunio dadansoddiad sy'n seiliedig ar god post. Gallai buddsoddi mwy o adnoddau mewn dadansoddi data helpu'r Cyngor i nodi'r bobl hynny nad ydynt yn ddefnyddwyr a thargedu eu gwasanaethau'n fwy effeithiol.

[6] Gweler Atodiad 1

# Rhan dau: Ymateb Cyngor Sir Penfro

33 Wedi i ni gwblhau ein gwaith maes, cyflwynwyd ein canfyddiadau i'r Cyngor mewn gweithdy ym mis Chwefror 2019 a fynychwyd gan uwch swyddogion y Cyngor. Yn y gweithdy hwn, dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau ac o ganlyniad i'r trafodaethau yn y gweithdy a rhagor o fyfyrio ar ein canfyddiadau, mae'r Cyngor wedi datblygu'r camau gweithredu canlynol.

| |
|---|
| **Hirdymor** |
| Ymgysylltu â'r Hwb Data i ddechrau'r daith tuag at gyflawni cyfres o fesurau canlyniadau a gwerth cymdeithasol er mwyn dangos yr hyn sydd wedi'i gyflawni. |
| Ymgysylltu â grwpiau cenedlaethol i gael y gwerth gorau posibl o fesurau lleol a chenedlaethol sy'n bodoli eisoes, er mwyn datblygu a chyflawni cyfres o fesurau cyson a fydd o gymorth i gymharu cyflawniadau gwahanol gyrff. |
| **Atal** |
| Dadansoddi'r amrediad o ymyriadau er mwyn asesu pa rai sy'n cael yr effaith fwyaf ar ganlyniadau cadarnhaol. |
| Deall pam nad yw pobl yn ymgysylltu a datblygu/cyflawni cynllun i annog pobl i fynd i ganolfannau hamdden. |
| Defnyddio dulliau gweithredu wedi'u targedu er mwyn cyflawni'r effaith fwyaf posibl, yn enwedig mewn ysgolion – amrediad oedran penodol, gyda chynlluniau gweithredu wedi'u targedu. |
| **Integreiddio** |
| Dylai'r uwch-arweinwyr fynd ati i gefnogi integreiddio'n fwy amlwg drwy gydol y sefydliad mewn modd sy'n edrych ar y darlun cyfan, er mwyn newid y diwylliant a meddwl mewn modd integredig o'r cychwyn cyntaf a chefnogi'r gwaith o gael gwared ar unrhyw rwystrau i weithio ar draws gwasanaethau. |
| Dylid ceisio disgrifio sut mae'r strategaeth leol yn cefnogi dulliau gweithredu cenedlaethol yn fwy eglur a sut gall partneriaid allweddol eraill a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyfrannu at y nodau a'r amcanion cyffredinol ar gyfer dinasyddion Sir Benfro (er enghraifft, Strategaeth Hamdden y Cyngor neu Strategaeth Hamdden Sir Benfro?) |
| **Cydweithio** |
| Cymryd cyfleoedd i gydweithio â phartneriaid, fel y Parc Cenedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, er mwyn cydnabod bod y cynnig hamdden yn ehangach na'r hyn a ddarperir trwy gyfleusterau sy'n eiddo i'r Cyngor. (er mwyn gwneud cynnydd tuag at y weledigaeth gyffredinol ar gyfer dinasyddion Sir Benfro). |
| **Cyfranogiad** |
| Cynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol ar gyfer y strategaeth hamdden yn gyffredinol, a defnyddio hwn i herio ffyrdd o feddwl er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn gynhwysol. |
| Gosod cyfnod adolygu/ailwampio rheolaidd ar gyfer ailedrych ar yr asesiad o'r effaith amgylcheddol er mwyn ei gadw'n gyfredol a pharhau i helpu i yrru'r strategaeth yn ei blaen. |

| Corfforaethol |
| --- |
| Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei hun ei fod yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant. Gallai dysgu gwersi o hyn helpu'r Cyngor i ymwreiddio arferion da ymhellach. |

34 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor wrth gyflawni'r camau gweithredu hyn, ac i ba raddau y mae'n mynd i'r afael â'r problemau a nodwyd yn ein canfyddiadau.

# Atodiad 1

## Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio

Mae'r tabl isod yn gosod 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u nodi ac y byddwn yn eu defnyddio i helpu i lywio ein hasesiadau o'r graddau y gallai cyrff fod yn gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Nid ydym yn bwriadu defnyddio'r dangosyddion fel 'rhestr wirio'. Dylid eu hystyried yn 'ddangosyddion' a fydd yn ein helpu i greu casgliadau, yn hytrach na 'phenderfynyddion' o'r graddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 1: Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn gweithredu'r ffordd hirdymor o weithio yn ei chyfanrwydd? |
|---|
| • Mae dealltwriaeth glir o ystyr 'hirdymor' yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Mae'r corff wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at ei weledigaeth hirdymor.<br>• Mae wedi dylunio'r cam i ddwyn manteision byrdymor neu dymor canolig, sy'n cydbwyso â'r effaith dros yr hirdymor (o fewn cyd-destun y prosiect).<br>• Mae wedi dylunio'r cam ar sail dealltwriaeth soffistigedig o'r angen a'r pwysau presennol, a'r rheiny yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau'r dyfodol.<br>• O ganlyniad, mae dealltwriaeth gynhwysfawr o'r risgiau a chyfleoedd presennol a'r rheiny yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau manteision hirdymor yn ogystal â byrdymor.<br>• Canolbwyntir ar gyflawni canlyniadau, wrth nodi cerrig milltir / camau cynnydd lle bydd canlyniadau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.<br>• Mae'n agored i ffyrdd newydd o gyflawni pethau a allai helpu i ddwyn manteision yn yr hirdymor.<br>• Mae'n rhoi gwerth ar ddeallusrwydd ac yn mabwysiadu dulliau o weithio ar sail tystiolaeth. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn gweithredu'r ffordd ataliol o weithio yn ei chyfanrwydd?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall gwreiddiau problemau fel bod modd trechu cylchoedd negyddol a heriau rhyng-genedlaethol.<br>• Mae'r corff yn gweld heriau o safbwynt system gyfan, gan gydnabod a rhoi gwerth ar y manteision hirdymor y gallant eu cyflawni i bobl ac i leoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i weithredoedd ataliol sy'n debygol o gyfrannu at well canlyniadau a gwell defnydd o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed pan allai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhywfaint o anghenion byrdymor.<br>• Mae trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth gweithredoedd ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau i fynd ar drywydd gwelliannau rhagweledig o ran canlyniadau a'r defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn gweithio mewn ffordd 'integredig'? |
| --- |
| • Unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn ceisio cyfleoedd yn rhagweithiol i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Mae hyn yn digwydd yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill hefyd.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y cyd-ddibyniaethau ar draws y sefydliad o ran cyflawni'r uchelgais a'r amcanion.<br>• Mae diwylliant agored lle caiff gwybodaeth ei rhannu.<br>• Mae dealltwriaeth dda o'r ffordd y mae'r amcanion llesiant a chamau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn mynd ati'n rhagweithiol i weithio ar draws ffiniau'r sefydliad i gynyddu eu cyfraniad i'r eithaf ar draws y nodau llesiant ac i leihau effeithiau negyddol.<br>• Mae'r dull llywodraethu, y strwythurau a'r prosesau, yn ogystal ag ymddygiad, yn hybu hyn. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar leoedd, cymunedau a chanlyniadau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda o amcanion ei bartneriaid yn ogystal â'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i sbarduno gweithgareddau ar y cyd.<br>• Mae gan y corff gydberthnasau cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn rhoi gwerth ar y cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio sefydlu prosesau a ffyrdd o weithio ar y cyd, lle bo'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Bod â dealltwriaeth o bwy y mae angen eu cynnwys a pham.<br>• Myfyrio ar ba mor dda y caiff yr anghenion a'r heriau sy'n wynebu'r bobl hynny eu deall ar hyn o bryd.<br>• Gweithio'n gydweithredol a gweithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid yn ffynhonnell wybodaeth hollbwysig a fydd yn helpu i gyflawni gwell canlyniadau.<br>• Sicrhau y caiff amrywiaeth lawn y rhanddeiliaid ei chynrychioli a bod modd iddynt gymryd rhan.<br>• Bod â chydberthnasau aeddfed a ffyddlon â'i randdeiliaid, lle mae deialog barhaus a chaiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod y rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru